# Cadeirydd Bwrdd Golygyddol Gwerddon: manylion y rôl

### Cefndir *Gwerddon*

1. E-gyfnodolyn ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw *Gwerddon*. Mae'n gyfnodolyn academaidd amlddisgyblaethol safonol. Cymraeg yw iaith y cyfnodolyn.

2. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Gwerddon* ym mis Ebrill 2007. Fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo statws yr iaith o fewn addysg uwch, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bwysig i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ymchwil, ac felly sefydlwyd cyfnodolyn academaidd a fyddai'n fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau.

3. Mae *Gwerddon* yn gweithredu cyfundrefn arfarnu annibynnol ac yn arddel y safonau golygyddol uchaf. Mae'n gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).

4. Golygir *Gwerddon* gan yr Athro Anwen Jones. Yr Is-Olygydd yw'r Dr Hywel Griffiths.

5. Fe'u cefnogir yn eu gwaith gan Fwrdd Golygyddol sy'n cynnwys ysgolheigion o amryw ddisgyblaethau ledled Cymru.

6. Cefnogir y Golygydd a'r Is-olygydd gan Gynorthwywyr Golygyddol o staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a thri is-olygydd dan hyfforddiant.

7. Y Cadeirydd presennol yw'r Dr Myfanwy Davies, a fydd yn sefyll i lawr fel Cadeirydd erbyn diwedd Hydref 2026.

## Swydd Ddisgrifiad

8. Y Cadeirydd sydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd o Fwrdd Prosiect a Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*.

9. Bydd dyletswyddau penodol yn cynnwys:

- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Golygyddol (dau ar-lein y flwyddyn);
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect (dau ar-lein y flwyddyn);
- Cynorthwyo'r Tîm Golygyddol gyda phenderfyniadau yn ymwneud â datblygiad a phrosesau'r cyfnodolyn, gan gynnig barn yn ôl y gofyn;
- Cynrychioli'r Bwrdd Golygyddol ar Bwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (sy'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn ar-lein);
- Cefnogi'r Golygydd a'r Is-olygydd mewn digwyddiadau hyrwyddo achlysurol megis yr Eisteddfod Genedlaethol (tua un neu ddau y flwyddyn).

10. Bydd tymor y swydd yn dair blynedd gan ddechrau ar 1 Tachwedd 2026. Gellir cael ail dymor o dair blynedd gyda sêl bendith y Bwrdd Golygyddol.

11. Amcangyfrifir y bydd y gwaith, ar gyfartaledd, yn llai na hanner diwrnod y mis.

12. Rôl ddi-dâl yw hon. Telir costau rhesymol (e.e. teithio).

## Nodweddion personol

13. Disgwylir y bydd y cadeirydd newydd yn academydd o fewn un o brifysgolion Cymru sydd â:

- Phrofiad helaeth o gyhoeddi academaidd;
- Dealltwriaeth dda o arferion cyhoeddi academaidd yn eu maes;
- Ymrwymiad cryf i gyhoeddi academaidd cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i genadwri ac amcanion *Gwerddon* yn benodol.

## Enwebiadau

14. Gwahoddir unigolion sydd â diddordeb yn y rôl i gyflwyno eu henw ynghyd â chrynodeb byr (hyd at 200 gair) yn amlinellu eu haddasrwydd ar gyfer y rôl drwy'r ffurflen enwebu erbyn canol dydd, dydd Gwener 9 Hydref 2026.
15. Gellir enwebu unigolyn arall ond dylid cael caniatâd yr unigolyn dan sylw.
16. Mae'r rôl yn agored i aelodau presennol Bwrdd Golygyddol *Gwerddon* ac i unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.
17. Am sgwrs bellach ynglŷn â'r rôl, dylid cysylltu â gwybodaeth@gwerddon.cymru.

### Proses ddewis

18. Dewisir y cadeirydd drwy bleidlais ymhlith aelodau presennol y Bwrdd Golygyddol (gan gynnwys y Golygydd a'r Is-olygydd), a hysbysir yr enwebai llwyddiannus erbyn 28 Hydref 2026.